



Rhaglen Gyflawn

**Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee**

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

9.30 y.b., DYDD GWENER, 11EG EBRILL, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|-------------------|----------------------------------|
| Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

| | |
|---------------------|--|
| Sedd Wag | Prifysgol Bangor |
| Yr Athro Joe Yates | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Aled Jones-Griffith | Grŵp Llandrillo Menai |
| Sedd Wag | Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |
| Sedd Wag | Parc Cenedlaethol Eryri |

Prif Swyddogion - Heb bleidlais

| | |
|----------------|----------------------------------|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dafydd Gibabrd | Cyngor Gwynedd |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Alwyn Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Swyddogion yn bresennol

| | |
|--------------------|--|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr Dros Dro y CBC / Cyfarwyddwr Portfolio |
| Iwan Evans | Swyddog Monitro |
| Claire Incledon | Dirprwy Monitro |
| Dewi Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Hedd Vaughan-Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2024/25.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellr eu hystyried.

6. CYLCH GORCHWYL AR GYFER YR IS-BWYLLGOR LLES 5 - 10 ECONOMAIDD

I adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

7. CYFETHOL I'R IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD 11 - 12

I ystyried Cyfethol aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i'w benodi ar yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

8. BLAEN RAGLEN WAITH YR IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD 13 - 16

I ystyried Blaen Raglen Waith ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

9. PENODI SRO Y CYNLLUN TWF 17 - 18

Cyflwyno enwebiad ar gyfer yr Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) Newydd ar gyfer y Cynllun Twf.

10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghroau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau

11. ADOLYGIAD PORFFOLIO

Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC / Cyfarwyddwr Portffolio) ac Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau) i gyflwyno'r adroddiad.

12. ACHOS BUSNES LLAWN 4G+ (SAFLEOEDD A CHORIDORAU ALLWEDDOL CYSYLLTIEDIG)

Stuart Whitfield (Rheolwr y Rhaglen Ddigidol) a Kirrie Roberts (Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol) i gyflwyno'r adroddiad.

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

11eg Ebrill 2025

TEITL: Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (*Atodiad 1*).

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Rhaid i'r Is-bwyllgor weithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fel y'u mabwysiadir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ac a nodir yn y Cylch Gorchwyl – dyma'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r telerau hyn gael eu cymeradwyo gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ar 17 Ionawr, 2025 cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig sefydlu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ei aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl, i gyflawni'r swyddogaeth llesiant economaidd a roddwyd i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn dilyn Rheoliadau Sefydlu. Roedd yr ysgogiad strategol i drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn deillio o'r gydberthynas mewn aelodaeth rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yr awydd i osgoi lluosog o gyrff rhanbarthol a swyddogaethau tebyg, a manteision ac effeithlonrwydd cyfreithiol a gweithredol amrywiol y Cyd-bwyllgor Corfforedig fel endid corfforaethol ei hun.

4.2. Gyda trosglwyddiad y Cynllun Twf ar y 1af o Ebrill mae natur strategol rôl yr Is-Bwyllgor yn ystod y cyfnod cychwynol ar ôl trosglwyddo, bydd yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd yn canolbwyntio ar yrru mlaen Cynllun Twf Gogledd Cymru, ac mae'r Cylch Gorchwyl yn adlewyrchu'r ffocws hwn. Wrth i ddealltwriaeth ddatblygu am ddiffiniad Lles Economaidd ar lefel ranbarthol, bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu hyn.

4.3. Daw aelodaeth yr Is-Bwyllgor o Aelodaeth Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gyda'r Arweinyddion yr Awdurdodau Lleol yn aelodau enwebedig. Mae llywodraethu presennol yr is-bwyllgor yn dod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y trefniadau cyfethol.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Awdur yr adroddiad.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Rwyf o’r farn fod y Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd yn rhesymol ac rwyf yn ei gefnogi.”

Atodiad 1: Dyfyniad o gyfansoddiad y CJC

Mae'r darn canlynol yn rhan o Gyfansoddiad y Cydbwyllgor Corfforaethol ac felly mae'r confensiwn rhifo yn cynrychioli ei le o fewn hyn.

Mae'r Cylch Gorchwyl arfaethedig yn canolbwyntio ar y Swyddogaeth Llesiant Economaidd a'r Fargen Dwf. Bydd rôl y Parth Buddsoddi yn destun adroddiad dilynol.

Adran 5

IS-BWYLLGORAU

Is-bwyllgor Lles Economaidd – Pwyllgor

- 5.8.1 Bydd y CBC yn penodi Is-bwyllgor (a elwir yn Is-bwyllgor Lles Economaidd i arwain ar swyddogaeth Lles Economaidd y CBC.
- 5.8.2 Nodir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn Rhan 1 o'r Adran hon. Gall y CBC ddiwygio'r cylch gorchwyl o bryd i'w gilydd.
- 5.8.3 Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cynnwys chwe Aelod Cyngor y CBC, ynghyd â chynrychiolydd enwebedig o bob un o'r cyrff canlynol a benodir yn aelod cyfetholedig nad yw'n pleidleisio:
 - 1. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
 - 2. Prifysgol Bangor
 - 3. Prifysgol Wrecsam
 - 4. Coleg Cambria
 - 5. Grŵp Llandrillo Menai
 - 6. Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes
 - 7. Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD - CYLCH GORCHWYL

1. NODAU / PWRPAS

- 1.1. Arwain ar swyddogaeth Lles Economaidd y CBC.
- 1.2. Cydlynu'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r Cynllun Twf ;
 - rhoi cyfeiriad i strategaethau allweddol i gefnogi paragraff (a) uchod, yn benodol trafndiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a chynllunio defnydd tir;
 - uno'r aelodau cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, elusennau a busnesau o amgylch diben cyffredin i gefnogi 'r Cynllun Twf
 - Nodi cyflawni fel rhan o'r Cynllun Twf sydd i'w ddatblygu drwy Achos Busnes Prosiect yn unol â'r Cynllun Busnes Portffolio.
 - Adolygu'r Cynllun Busnes Cyffredinol ("OBP")
- 1.3. Arwain ar gyfraniad y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a chymryd rhan yng Ngweledigaeth Twf Gogledd Cymru.

2. SWYDDOGAETHAU'R IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

Bydd y Cyd-bwyllgor yn ymgymryd â'r swyddogaethau a ganlyn:-

- 2.1. Arfer swyddogaethau'r CBC mewn perthynas â lles economaidd Gogledd Cymru yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- 2.2. pennu ffurf a nifer y cronfeydd i gyflawni'r Cynllun Twf;
- 2.3. cymeradwyo Achosion Busnes Prosiectau i gyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r Cynllun Busnes Portffolio / Cynllun Busnes Cyffredinol.
- 2.4. darparu cyfeiriad strategol i'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol a'r Bwrdd Portffolio (i gynnwys cymeradwyo cylch gwaith y Grŵp Cefnogaeth Weithredol a'r Bwrdd Portffolio a chymeradwyo unrhyw faterion adnoddau).
- 2.5. monitro trefniadau perfformiad, rheoli a gwaith (i gynnwys y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol).
- 2.6. sicrhau bod adnoddau digonol wedi'u hymrwymo i'r Cynllun Twf.
- 2.7. cyflafareddu ar unrhyw anghydfod o fewn y rhaglen a negodi datrysiad i unrhyw broblemau rhwng y rhaglen a chyrrff allanol.
- 2.8. cyfathrebu a darparu cynnydd ar faterion strategol o fewn y Cynllun Twf.
- 2.9. hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth.
- 2.10. cysylltu â phartneriaid Cynlluniau Twf neu Gynlluniau Dinasoedd eraill ledled y Deyrnas Unedig i rannu arfer gorau a sicrhau dull strategol wedi'i gydlynu.

- 2.11. darparu adroddiadau cynnydd blynyddol a chwarterol ar gyflawni Y Cynllun Twf.
- 2.12. Argymhell cyfethol aelodau i'r Is-bwyllgor ar gyfer penderfyniad gan y CBC.
- 2.13. Yn ddarostyngedig i'r Cylch Gorchwyl hyn a Pholisïau a Strategaethau'r Cyngor i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag unrhyw faterion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys sy'n ffafriol neu'n gysylltiedig â chyflawni'r Telerau Gorchwyl hyn

3. TELERAU

- 3.1. Sicrhau ei fod yn arfer ei swyddogaethau o fewn y Strategaethau Polisiâu a'r Gyllideb a fabwysiadwyd gan y CBC o bryd i'w gilydd.
- 3.2. Sicrhau bod y cynigion yn fforddiadwy ac yn rhoi'r gwerth gorau am arian i'r sector cyhoeddus.
- 3.3. Sicrhau bod y Cynllun Twf yn cael ei reoli a'i gyflawni unol a'r Cytundeb Cyflawni ac Ariannu mewn perthynas a chyflawni Cynllun Twf Goledd Cymru ("GA3") gan CBC y Gogledd.

4. RHEOLI RHAGLENNI A PHROSIECTAU

- 4.1. I gydlynio cynllunio, datblygu a darparu Rhaglen(ni) / Prosiect(au) perthnasol o fewn y Telerau Gorchwyl hyn;
- 4.2. Monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni) / Prosiect(au) perthnasol, a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- 4.3. Monitro ac adolygu lefel a defnydd a gwerth am arian adnoddau, gan gynnwys staff, a lle bo'n briodol, gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.
- 4.4. Monitro ac adolygu lefel a defnydd yr adnoddau sydd eu hangen gan gynnwys staff a lle mae'n ystyried ei fod yn briodol, gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn.

PENDERFYNIADAU PENODOL MEWN PERTHYNAS Â'R FARGEN DWF SY'N DDAROSTYNGEDIG I'R CYNLLUN DIRPRWYO YN ADUAN 8

| PENDERFYNIAD | MATER I'R CYFARWYDDWR PORTFFOLIO | MATER PW CBC | MATER I'R IS-BWYLLGOR | MATER A CBC |
|--|---|---------------------|------------------------------|--------------------|
| THEMÂU ALLWEDDOL | | | | |
| 1. Cymeradwyo a mabwysiadu unrhyw OBP wedi'i ddiweddarau oddieithr i'r graddau y mae diweddariad o'r fath gyfystyr â newid materol i'r OBP pennaf neu newid materol yng nghynnwys y Portffolio Rhaglen neu Gynllun Busnes mewn unrhyw Brosiect Cymeradwy | | | Ydy | |
| 2. Cymeradwyo a mabwysiadu Achosion Busnes Rhaglenni a Phortffolio | | | Ydy | |
| 3. Cymeradwyo a mabwysiadu Achosion Busnes Project | | | Ydy | |
| 4. Cymeradwyo a mabwysiadu Achosion Busnes Prosiect Llawn ble mae'r Is- Bwyllgor wedi dirprwyo y gymeradwyaeth i'r Cyfarwyddwr Portffolio | Ydy | | | |
| 5. Yn ddarostyngedig i 1 uchod amrywio'r Rhaglenni i'w darparu | | | Ydy | |
| CYLLID A GWARIANT | | | | |
| 6. Cymeradwyo unrhyw wariant o fewn Cynllun Dirprwyo y CBC | Ydy | | | |
| 7. Trosglwyddo cyllid sydd wedi'u glustnodi o un Prosiect i un arall | | | Ydy | |
| 8. Cytuno i unrhyw drefniant benthyca ar ran y CBC a/neu roi unrhyw sicrwydd yng nghyswllt y benthyca hwn | | | | Ydy |
| 9. Derbynn amodau a thelerau yng nghyswllt unrhyw arian trydydd parti ar gyfer y Cynllun Twf neu'r Weledigaeth Twf | | | | Ydy |
| 10. Cytuno ar sgôp yr Adolygiadau Porth | Ydy | | | |
| 11. Cytuno ar unrhyw Amodau Cyllid Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU | | | Ydy | |
| CYFFREDINOL | | | | |
| 12. Cymeradwyo cylch gorchwyl y corff cynghori sector breifat | | | Ydy | |
| 13. Sefydlu, is-grŵp swyddogion neu gorff rheoli prosiect | Ydy | | | |
| 14. Gwneud unrhyw amrywiadau neu ildio unrhyw hawliau neu derfynu unrhyw gontractau sy'n faterol i'r Cynllun Twf | Ydy | | | |
| 15. Awgrymu a chytuno diwygiadau i delerau'r Cytundeb Cyflawni ac Ariannu | | | | Ydy |
| 16. Gwneud unrhyw gyhoeddiadau i'r wasg neu ddatganiadau o ba bynnag natur yng nghyswllt y Cyd-bwyllgor a'r Cynllun Twf | Ydy | | | |
| 17. Cymeradwyo'r Achos Busnes ar gyfer creu cwmni masnachu awdurdod lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 os yw cwmni o'r fath yn fodel addas a ffafrir i gyflawni prosiect Cynllun Twf | | | | Ydy |



ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLE ECONOMAIDD

11eg Ebrill, 2025

TEITL: Cyfethol i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd

AWDUR: Iwan Evans, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried Cyfethol aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i'w benodi ar yr Is-bwyllgor Lles Economaidd

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Argymhell i'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd gyfethol Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (heb bleidlais) ar yr Is-bwyllgor i gefnogi ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau.

2.2. Bod yr aelod isod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu cyfethol i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn berthnasol i faterion cynllunio strategol yn unig:

- Jonathan Cawley, Prif Weithredwr.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ar Fawrth 21 cytunodd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd y bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cynnwys chwe Aelod Cyngor Cyd-Bwyllgor Corfforaethol y Gogledd, ynghyd a chynrychiolydd o bob un o'r cyrff hynny a gynrychiolwyd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gael ei benodi fel aelodau cyfethol di-bleidlais.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Aelodaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn defnyddio aelodaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Adlewyrchir hyn yn ei gyfansoddiad presennol gydag arweinwyr pob Cyngor cyfansoddol (Aelodau sy'n pleidleisio), ac aelodaeth gyfethol o'r sefydliadau addysgol a chynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (materion cynllunio), Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, a chynrychiolydd Cadeirydd o'r Bwrdd Cyngori Busnes. Mae hyn yn cynrychioli'r sefyllfa fel sy'n ofynnol yn Rheolau Sefydlog y Cyd-bwyllgor Corfforaethol – "Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd yn cynnwys chwe Aelod Cyngor y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, ynghyd â chynrychiolydd o bob un o'r cyrff canlynol a benodwyd fel aelodau cyfethol di-bleidlais".

4.2. Mae cynrychiolwyr pob corff partner wedi ymgymryd â rôl fel ymgynghorwyr i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hyd yn hyn. Mae cwblhau cytundeb cyd-ddewis yn rhagflaenydd statudol i ymgymryd ag aelodaeth o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar y telerau a nodir yn y

cytundeb cyfethol. Mae'r Aelodau cyfetholedig yn cael eu penodi am gyfnod o ddwy flynedd neu hyd nes iddynt sefyll i lawr o'u rôl gyflogedig neu ymddiswyddo, pa un bynnag yw'r lleiaf.

- 4.3. Mae Canllawiau Statudol yn annog cynnwys eraill i gefnogi cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r Canllawiau'n amlinellu pwysigrwydd creu diwylliant cynhwysol a chydweithredol i sicrhau persbectif ehangach o'i waith. Mae natur strategol gwaith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn rhoi cyfle iddo adnabod partneriaid a rhanddeiliaid allweddol y maent yn ystyried a fyddai o fudd i'w waith. Fodd bynnag, mae pwy sy'n cael ei gyfethol a sut yn fater i'r CBC ei benderfynu.
- 4.4. Drwy gyfethol Aelodau ar unrhyw Is-bwyllgor, mae'r CBC yn cyfethol unigolyn fel Aelod o CBC y Gogledd ar y telerau hynny y mae'n eu pennu. Golyga hyn bod y person a gaiff ei gyfethol yn cael ei benodi'n Aelod i gefnogi swyddogaeth y CBC, yn hytrach na chynrychioli unrhyw sefydliad neu gyflogwr. Bydd telerau'r cyfethol yn cael eu nodi yn y cytundeb cyfethol a dim ond y swyddogaethau trafndiaeth hynny sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor y byddant yn berthnasol iddynt.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

- i. **Swyddog Monitro:**

Awdur yr adroddiad.

- ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

“Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.”



ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

11eg Ebrill 2025

TEITL: Blaen Raglen Waith yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd

AWDUR: Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. I ystyried Blaen Raglen Waith ar gyfer yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cytuno ar Flaen Raglen Waith.

2.2. Y gall y Cadeirydd ddiwygio'r Cynllun i ystyried amrywiadau mewn amserlennu gwaith yn amodol ar y Cynllun yn cael ei ddwyn i'r cyfarfod canlynol o'r is-bwyllgor i gael ei gytuno.

3. REASON FOR THE DECISION

3.1. Mae'r Blaen Raglen Waith yn nodi calendr o gyfarfodydd ar gyfer y chwe mis nesaf ac yn cydfynd â dyddiadau cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru.

4. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

4.1. Mae'r Blaen Raglen Waith yn nodi'r calendr cyfarfodydd, ac yn ychwanegol yn amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud gan yr is-bwyllgor yn dilyn ei swyddogaethau dirprwyedig fel y nodir yn ei gylch gorchwyl.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng ngorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

Atodiad 1 **Blaen raglen waith yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd: Ebrill - Tachwedd 2025**


YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae proses ddemocrataidd yr is-bwyllgor yn cael ei cyfarch yn briodol drwy raglen waith y cytunwyd arno, sydd wedi'i nodi yn y Flaenraglen yma"

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Bydd yr adroddiad alldro referniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25 yn ogystal â'r adroddiadau ar gyfer yr adolygiadau cyllideb referniw a chyfalaf ar gyfer 2025/26 yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd er gwybodaeth yn unig. Bydd yr adolygiadau cyllideb referniw a chyfalaf hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cymeradwyo'r penderfyniadau a geisir."



**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD
BLAEN RAGLEN WAITH**

| Dyddiad Cyfarfod | Teitl yr Adroddiad | Pwrpas yr Adroddiad | Awdur | Eithriedig |
|--|--|--|--------------------------|------------|
| Mai 16 2025 | Sefyllfa Alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2024/25 | Darparu sefyllfa alldro terfynol ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2024/25 i'r Is-Bwyllgor. | Dewi Morgan Sian Pugh | Na |
| | Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarter 4 2024/25 | Cyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ionawr i Mawrth) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi ddiweddarau. | Hedd Vaughan-Evans | Na |
| | Achos Fusnes Llawn y prosiect Ynni Lleol Blaengar | Cyflwyno Achos Busnes Llawn y prosiect Ynni Lleol Blaengar i'w ystyried gan yr-Is-Bwyllgor. | Sandra Sharp | Ydi |
| | Diweddariad Anturiaethau Cyfrifol | Cyflwyno adroddiad ar dri pryder penodol cyn gwahodd Cynllun Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Anturiaethau Cyfrifol, yn benodol: <ul style="list-style-type: none"> Darparu Cynllun Buddion Lleol wedi datblygu yn Dilyn Ymgysylltu gyda'r cymunedau lleol Paratoi Strategaeth ac egwyddorion gweithredol i'r e-fws Darparu adroddiad cynnydd ar y Cynllun Ymgysylltu | Elliw Hughes | Na |
| Gorffennaf 11 2025 – dyddiad i'w gadarnhau | Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer 2025/26 | Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer 2025/26 | n/a | |
| | Adroddiad Blynyddol 2024/25 | I gyflwyno yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25. | Alwen Williams | Na |
| Hydref 3ydd 2025 – dyddiad i'w gadarnhau | Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2024/25 – Adolygiad diwedd Awst 2025 | Darparu manylion y gwariant a'r incwm refeniw gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst 2025, i'r Is-Bwyllgor, Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol. | Dewi Morgan Sian Pugh | Na |
| | Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarter 1 2025/26 | Cyflwyno adroddiad Chwarter 1 (Ebrill i Fehefin) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi ddiweddarau. | Hedd Vaughan-Evans | Na |

| | | | | |
|--|---|---|--------------------|-----|
| | Diweddariad Cynnydd prosiect Cydnerth | Darparu adroddiad diweddariad ar gynnydd y prosiect gyda manylion am ffioedd, cyllidebau ac amserlenni. | Gareth Rogers | Na |
| Tachwedd 7fed 2025 – dyddiad i'w gadarnhau | Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarter 2 2025/26 | Cyflwyno adroddiad Chwarter 2 (Gorffennaf i Fedi) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi ddiweddarau. | Hedd Vaughan-Evans | Na |
| | Achos Fusnes y Portffolio | Cyflwyno diweddariad 2025 Achos Busnes y Portffolio a chanlyniad Adolygiad Sicrwydd Portffolio 2025 ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. | Hedd Vaughan-Evans | Ydi |

*Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys eitemau agenda safonol, bydd achosion busnes prosiectau y Cynllun Twf yn cael ei cyflwyno yn ôl yr angen.



ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD
11 Ebrill 2025

TEITL: Penodi SRO y Cynllun Twf
AWDUR: Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r enwebiad ar gyfer yr Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) newydd ar gyfer y Cynllun Twf.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-bwyllgor yn penodi Dylan Williams Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) newydd ar gyfer y Cynllun Twf.

2.2. Bod yr Is-bwyllgor yn cytuno i adolygu'r trefniadau ymhen 12 mis.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ceisio cadarnhau penodiad SRO y Cynllun Twf yn unol â'r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Chwefror 2025, i wahanu rôl yr SRO a'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymateb i'r gofyniad newydd gan y Llywodraeth.

4. CEFNDIR

4.1. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac Uchelgais Gogledd Cymru i gyflawni buddsoddiad trawsffurfiol o £1biliwn i economi gogledd Cymru. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng ngogledd Cymru, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hirdymor i gyflawni twf cynhwysol.

4.2. Yn unol â chytundeb terfynol y Cynllun Twf, mae strwythur llywodraethu rheoli portffolio, rhaglenni a phrosiectau wedi'i sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf. Mae hyn yn cynnwys cael Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer y Cynllun Twf ac Aelodau Arweiniol ar draws y rhaglenni.

4.3. Yn y pen draw, mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn atebol am gyflawni amcanion Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gyflawni'r canlyniadau a ragwelir a gwireddu'r buddion gofynnol. Mae'r SRO yn atebol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig am gyflawni cwmpas ac amcanion y portffolio y cytunwyd arnynt.



5. UWCH BERCHENNOG CYFRIFOL (SRO)

- 5.1. Mae rôl yr SRO wedi'i chyflawni gan Alwen Williams ers dechrau'r Cynllun Twf ochr yn ochr â'i chyfrifoldebau Cyfarwyddwr Portffolio. Mae gofynion newydd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel cyllidwyr y Cynllun Twf bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r rolau hyn gael eu gwahanu a'u cyflawni gan wahanol unigolion i gynyddu atebolrwydd a darparu capasiti arweinyddiaeth ychwanegol.
- 5.2. Ym mis Chwefror 2025, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd benderfyniad i wahanu'r rolau a cheisio enwebiad gan un o Brif Weithredwyr y chwe awdurdod lleol yn y gogledd, i weithredu fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- 5.3. Mae Prif Weithredwyr yr awdurdodau lleol wedi ystyried y cynnig ac wedi enwebu Dylan Williams, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn i gymryd y rôl Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO). Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried fel estyniad naturiol i'r rôl Prif Weithredwr Arweiniol anffurfiol y mae Dylan Williams wedi bod yn ei gwneud i gefnogi'r Cyfarwyddwr Portffolio.
- 5.4. Mae'r SRO a'r Cyfarwyddwr Portffolio yn atebol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig am gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r papur hwn.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 8.1. Penderfynodd y Bwrdd Uchelgais ym mis Chwefror 2025 wahanu rolau Cyfarwyddwr Portffolio ac Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer y Cynllun Twf. Roedd hyn mewn ymateb i ofyniad clir y llywodraeth i gael SRO a Chyfarwyddwr Portffolio ar wahân. Gyda throsoglwyddo'r Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar 1 Ebrill 2025, mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r penderfyniad a phenodi'r SRO bellach yn dod o fewn swyddogaethau dirprwyedig yr Is-bwyllgor.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"O 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru i CJC Gogledd Cymru. Gyda chwblhau'r trosglwyddiad daeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ("EAB") i ben. Fodd bynnag, mae'r penderfyniadau fel y maent yn ymwneud â'r Cynllun Twf yn parhau i fod mewn grym. Mae'r CJC wedi dirprwyo swyddogaethau sy'n adlewyrchu rhai yr Bwrdd Uchelgais i'r is-bwyllgor. Mae'r penderfyniad ar benodi'r SRO i'r is-bwyllgor i'w wneud."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."